# 9. Taf Fechan
Merthyr Tudful

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriadau Grid** | Map Explorer 166 yr A.O., Y Rhondda a Merthyr Tudful.<br>Prif fynedfa: SO037076; Canolfan y safle: SO035085 |
| **Statws** | Rhan o SoDdGA Coetir Cwm Taf Fechan, a Gwarchodfa Natur Leol. |
| **Daliadaeth** | Sicrhawyd y safle fis Chwefror 1975, dan brydles o 99 mlynedd. Rheolir y safle ar y cyd gan yr Ymddiriedolaeth, Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a ffermwr sy'n denant. |
| **Maint** | 42 he. (102.5 erw). |
| **Lleoliad a Nodiadau Mynediad** | Wedi'i lleoli yng Nghwm Taf Fechan, rhwng Hen Bont yr Afon yng Nghefn Coed y Cymer a phont yr afon ym Mhontsarn, mae'r warchodfa yn rhyw 2.5 km i'r gogledd o ganol Merthyr Tudful. Sicrheir mynediad i'r safle o dri lle, ym mhen deheuol y safle ym mhont Cefn Coed (SO 037076), yn y canol drwy gyfrwng llwybr troed i'r gogledd o bentref Trefechan ac yn y pen gogleddol, ger pont Pontsarn, mewn maes parcio a safle picnic ger y Pwll Glas (SO 045097). Nid oes modd defnyddio cadeiriau olwyn ar y safle. |
| **Cludiant cyhoeddus** | Gorsaf drenau Merthyr Tudful, ble mae bysus rhif 25 a 26 yn gadael am Goed y Cymer a rhifau 40, 33 a 24 am Bontsarn. |

**Disgrifiad:** Coetir llydanddail hynafol, glaswelltiroedd calchaidd, afon a chlogwyni. Mae GNL Taf Fechan yn cynnwys rhyw 2.5 km o afon gyda llethrau serth ochr y cwm yn galchfaen carbonifferaidd. Mae'r afon wedi erydu'r calchfaen yn geunant cul yng nghanol y safle. Mae mosaig o goetir collddail ar y llethrau, gyda chanopi o Ffawydd, Bedw ac Ynn, yn ildio'i le i Werni a Helyg Llwydion yn nes at yr afon, ynghyd â phrysgwydd Drain Gwynion, glaswelltir calchaidd, rhostir, llaciau gwlyb a ffurfiadau twffa. Yn y cwm yma mae'r cofnod gorau o fryoffytau yn sir Morgannwg i gyd.

Mae'r glaswelltir sydd wedi'i bori i'r de o lan ddwyreiniol yr afon yn arbennig o gyfoethog mewn blodau, fel Teim Gwyllt (5-8), y Tegeirian Brych Cyffredin (6-8), Peradyl Garw (6-9) a Heboglys Torllwyd (5-8). Ar y lan orllewinol, ceir gorchudd o briddoedd asidig ar y glaswellir calchfaen, ble mae'r rhostir a'r coetir bedw'n datblygu, a gwelir Rhedyn, Grug (7-9) a Chlafrllys Bychan (7-9) yn y fan yma.

Mae'r coetir yn denu amrywiaeth o adar, fel y Dylluan Frech, y Bwncath, y Gnocell Fraith Fwyaf, Ysgrech y Coed, Telor y Cnau a'r Dringwr Bach, tra bo Bronwen y Dŵr a'r Siglen Lwyd i'w gweld yn aml ar afon Taf Fechan, ac yn magu yma hefyd.

Mae'r glaswelltir a'r rhostir yn darparu cynefin ar gyfer glöynnod byw fel y Glesyn Cyffredin (4-9), Llwyd y Ddôl (6-9), y Copor Bach (5-9) a'r Fritheg Berlog Fach (5-7). Mae'r hen dramffordd i Waith Haearn Cyfarthfa o ddiddordeb archeolegol, ac mae'n cynnwys rhan o'r llwybr troed ar y lan ddwyreiniol, y llwybr sy'n arwain i lyn Parc Cyfarthfa ym mhen deheuol y safle, a gweddillion y melinau pannu ac yd ar lan yŕ afon.




**Nodau Rheoli:** Gweithio gyda sefydliadau partner eraill i gynnal a gwella amrywiaeth a nodweddion arbennig y safle, ac annog mynediad priodol i'r cyhoedd.

| **Amser da i ymweld** | |
|---|---|
| Ebrill – Medi | Blodau'r coetir a'r glaswelltir |
| Ebrill – Gorffennaf | Adar yn magu |
| Medi - Hydref | Lliwiau'r hydref |
| Medi – Tachwedd | Ffwng a bryoffytau |